# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Richard Griffiths, G.O. Jones, Dylan Rees<br>Alun Roberts, Margaret Roberts, Robin Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans a Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Uwch Archwilydd Mewnol (ECW)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Tai) (DR) (eitem 2)<br>Rheolwr Cyffredinol yr Uned Cynnal a Chadw Tai (IR) (eitem 2)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), Michelle Hopton (Deloittes) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 28 MEHEFIN, 2017**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2017, ac fe gadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi –

- **Datganiad o gyfrifon**

Hysbyswyd y Pwyllgor gan Michelle Hopton, Deloittes, fod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau yng nghanol mis Mehefin ac y disgwylir y bydd y gwaith wedi dod i ben erbyn diwedd yr wythnos hon. Cadarnhaodd yr archwilydd nad oedd unrhyw faterion o bwys i'w hadrodd ar hyn o bryd. Bydd adroddiad llawn a chasgliadau'r Archwilydd Allanol mewn perthynas â'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Medi'r Pwyllgor.

- **Archwiliadau Sicrwydd Cyfyngedig – Uned Cynnal a Chadw Tai**

Roedd y Diweddariad Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i gyfarfod 28 Mehefin, 2017 y Pwyllgor wedi tynnu sylw at ddau adolygiad mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Tai yng Ngaerwen lle'r oedd y sicrwydd a roddwyd yn Gyfyngedig. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Tai gael ei galw i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn egluro sut y cododd y gwendidau rheoli mewnol y tynnwyd sylw atynt yn yr

adolygiadau archwilio a sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu sicrhau system reoli effeithiol yn y dyfodol.

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Tai) bod y ddau adolygiad archwilio wedi ffurfio rhan o'r broses o drawsnewid yr Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU). Yn dilyn mabwysiadu'r trefniadau newydd, gofynnodd y Tîm Rheoli Cynnal a Chadw Tai i'r Archwilwyr Mewnol adolygu'r systemau ar gyfer effeithlonrwydd a gofynnwyd iddynt adnabod unrhyw wendidau yr oedd angen eu datrys. Mae Rheolwr Cyffredinol y HMU wedi bod yn cydlynu cyflwyniad a gweithrediad y broses newydd o fewn y system gyfredol gyda'r Gwasnaeth TGCh.

Adroddodd Rheolwr Cyffredinol yr HMU bod yr adolygiad archwilio mewnol wedi cynnig tua 15 o argymhellion ac y byddai rhai ohonynt yn cael eu gweithredu erbyn 31 Mai, 2017. Mae'r holl argymhellion diwethaf hyn wedi eu gweithredu ac mae'r prosesau y maent yn ymwneud â nhw bellach yn cael eu hail archwilio a disgwylir y canlyniadau erbyn diwedd Gorffennaf. Dywedodd y Swyddog nad oedd yn rhagweld unrhyw broblemau sylweddol gan fod y canlyniadau cychwynnol wedi bod yn ffafriol, heblaw am rai mân broblemau a fydd angen eu datrys ond nad oedd hynny'n annisgwyl o gofio mai dim ond diwedd mis Mai oedd y dyddiad gweithredu. Disgwylir i'r argymhellion eraill gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref ac roedd yn hyderus y byddai hynny'n digwydd ac y byddai'r gyfres olaf o argymhellion yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Mawrth, 2018. Mae trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau y cedwir at y dyddiadau hyn. Mae staff yr HMU wedi croesawu'r argymhellion ac mae eu gweithrediad eisoes wedi sicrhau gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth o fewn y system Rheoli Tai, Orchard sef system allweddol y gwasnaeth mewn perthynas â rheoli tai ac asedau.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o ran a oedd gweithredu'r argymhellion archwilio wedi golygu cyflwyno systemau newydd. Dywedodd Rheolwr Cyffredinol y HMU y cafwyd newidiadau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r system Reoli Tai bresennol, Orchard, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi gwaith gan isgontractwyr gan gynnwys pwy wnaeth y gwaith, dyddiad cwblhau'r gwaith yn ogystal â rhif yr anfoneb a'r rhif olrhain archeb er mwyn sicrhau y cynhyrchir trywydd archwilio ar gyfer pob darn o waith. Mae prosesau olrhain gwaith eisoes yn cael eu gweithredu gan y swyddogion mewnol drwy declynnau cofnodi electronig nad ydynt ar gael i gontractwyr allanol. Mae'r rhain yn cael eu rheoli â llaw ac yn golygu cofnodi gwybodaeth am archebion, nodi dyddiadau ac anfonebau. Mae'r tîm yn cynnwys 2 raglennwr a 3 aelod o staff gweinyddol sy'n gyfrifol am fewnbynnu'r wybodaeth. Nod y gwaith yn y pen draw, cyn ac yn deillio o'r adolygiad mewnol, yw sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle er mwyn rheoli'r ochr contractwyr allanol o'r gweithrediadau mor gadarn â phosibl a'u bod yn darparu'r diogelwch a'r sicrwydd angenrheidiol.
- Nododd y Pwyllgor fod yr amserlen ar gyfer gweithredu'r gwelliannau, fel sydd wedi'i hargymell gan yr Archwilwyr Mewnol, yn hael yn enwedig gyda'r disgwyliad y byddai newidiadau gweinyddol sylfaenol a newidiadau i weithdrefnau yn cymryd llawr llai o amser. Dywedodd Rheolwr Cyffredinol yr HMU fod hyn oherwydd yr TG a ddefnyddir a'i fod yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o'r system Orchard mewn ffordd sy'n bodloni anghenion yr HMU ac mewn ffordd sy'n cynhyrchu'r wybodaeth berthnasol yn ôl yr angen ac mewn ffordd hawdd i'r defnyddiwr ei ddeall ac mewn ffordd sy'n helpu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r system Orchard yn un dechnegol iawn ac nid yw tasg o'r fath yn rhywbeth fydd yn digwydd dros nos, gallai gymryd misoedd ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn yr amserlen a roddwyd ar gyfer gweithredu.
- Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad Archwilio Mewnol, fel y'i cyflwynwyd yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor hwn, wedi tynnu sylw at rai diffygion yn y system Orchard o ran nad yw'n cofnodi gwir gostau pob darn o waith gan nad yw'r system yn

cynnwys costau staff ar gyfer pob darn o waith. O ganlyniad, nid yw gwir gostau pob darn o waith yn cael eu hadnabod na'u codi amdanynt ac o ganlyniad mae'r cyfrif masnachu yn gamarweiniol sy'n arwain at benderfyniadau a dadansoddiadau gwerth am arian gwael. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y broblem wedi cael ei datrys neu ei bod wrthi'n cael ei datrys. Dywedodd Rheolwr Cyffredinol yr HMU bod angen ateb tymor hir i'r broblem; mae system Orchard yn cynnwys nifer o wahanol fodiwlau, un o'r rhai hynny yw Direct Works, sef system brisio o fewn Orchard. Nid yw'r gwasanaeth yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd a byddai gwaith sylweddol ynghlwm â gweithredu'r modiwl.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o ran a oedd y Cyngor wedi gwerthuso'r system Orchard ar gyfer effeithlonrwydd ac ymarferoldeb ac a oedd yn fodlon bod y system yn bodloni anghenion y HMU i allu cynhyrchu'r data angenrheidiol i allu tystio bod y gwasanaeth yn un effeithlon, cost effeithiol sy'n darparu gwerth am arian. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y byddai'n anodd gweithredu'r modiwl Orchard Direct Works oherwydd er mwyn gweithredu mewn ffordd sy'n effeithiol a defnyddiol byddai gofyn i'r manylion llawn am unrhyw gostau cysylltiedig ag unrhyw ddarn o waith gael eu cynnwys; mae hon yn dasg lafurus iawn o ran amser ac ymdrech. Yr asesiad sydd angen ei wneud yw a oes modd cyfiawnhau gweithredu modiwl costau llawn Direct Works o ystyried yr amser a'r ymdrech angenrheidiol ac a ellir cael gwybodaeth am effeithlonrwydd a gwerth am arian HMU mewn ffordd well, sy'n cymryd llai o amser na mynd i fanylder am bob un dasg unigol. Mae Rheolwyr HMU yn cofnodi ac yn monitro gwir gostau yn erbyn cyllideb y gwasanaeth ond fe wneir hyn ar sail gyffredinol yn erbyn y gyllideb gyffredinol yn hytrach nag ar sail tasgau unigol. Mesur arall o effeithlonrwydd yr HMU yw lefel o bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth a ddarperir, sy'n cael ei adlewyrchu yn y data perfformiad a gyhoeddir.
- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod rheoliadau digonol bellach yn bodoli er mwyn diogelu yn erbyn y posibilrwydd o ffugio data at ddibenion targedau perfformiad. Cadarnhaodd Rheolwr Cyffredinol yr HMU bod pob darn o waith gan gontractwyr allanol yn cael ei gofnodi yn unol â'i rif archeb, dyddiad cwblhau ac anfoneb a bod hynny wedyn yn cael ei groes gyfeirio yn erbyn rhif yr archeb a'r dyddiad cwblhau; bydd gweithwyr mewnol yn defnyddio'r ddyfais symudol electronig i gofnodi gwaith. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod yn fodlon bod y rheoliadau sydd bellach yn eu lle yn gweithio ond bod angen gwneud mân addasiadau pellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth 100%.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg bod yr archwiliad dilynol yn dangos bod yr holl weithredoedd uniongyrchol wedi eu cwblhau erbyn 31 Mai; o'r 4 o argymhellion sydd angen eu gweithredu erbyn 31 Gorffennaf, mae 1 wedi'i gwblhau ac mae'r 3 arall ar y gweill. Cyflwynir yr adroddiad dilynol arferol i gyfarfod mis Medi'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd ac i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai yn erbyn yr adolygiad Archwilio Mewnol.**

## 3 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Archwilio Mewnol mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth, sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn –

- Bod y tri adroddiad Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gwaith ardystio grantiau (Grant Rhentu Doeth Cymru, Grant Gwelliannau Addysgol 2016/17 a'r Grant Amddifadedd Disgyblion 2016/17) a'u bod gyd wedi cynhyrchu graddfeydd Sicrwydd sylweddol.

- Bod un adolygiad dilynol mewn perthynas â threfniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi ei gadarnhau yn ystod y cyfnod ac mae canlyniad hwnnw wedi'i grynhoi yn adran 5 yr adroddiad. Cynhelir adroddiad dilynol pellach yn ystod mis Hydref, 2017.
- Bod cynnydd o ran darparu'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 yn cael ei nodi yn adran 6 yr adroddiad a'i fod yn dangos bod gwaith ar y gweill mewn 12 maes ar hyn o bryd. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun Blynyddol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr ymdriniaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn seiliedig ar risgiau. Hysbysir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o unrhyw newidiadau yn ystod pob cyfarfod.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd; gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o ran a oedd cynnydd mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol yn cael ei ystyried i fod yn foddhaol o ystyried sensitifrwydd y maes ac o gofio y cynhaliwyd yr adolygiad cychwynnol yn ôl ym mis Medi, 2016 ac mai canlyniad hynny oedd barn sicrwydd Cyfyngedig. Nododd y Pwyllgor y byddai wedi disgwyl i'r adolygiad dilynol a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref, 2017 gadarnhau bod yr argymhellion wedi eu cwblhau yn hytrach nag asesiad o gynnydd. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai mwyafrif yr argymhellion wedi eu cwblhau erbyn Medi 2017; mae argymhelliad pellach wedi'i gynllunio i'w weithredu ym mis Rhagfyr, 2017 ac mae'n cynnwys ymchwilio i ateb TGCh er mwyn monitro cydymffurfiaeth â gwiriadau DBS - mae'r gwasnaeth mewn trafodaethau â Northgate er mwyn darparu cronfa ddata canolog o gofnodion DBS. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod yr holl system Gyflogres/AD a'r ffordd y caiff ei defnyddio yn cael eu hadolygu a bod hwn yn brosiect tymor hir. Mae angen i nifer o fodiwlau gael eu harchwilio ac mae'r rhain yn cynnwys Recriwtio a Hyfforddiant sy'n cynnwys cofnodi gwiriadau DBS. Mae'r argymhelliad y cyfeirir ato gan y Pennaeth Archwilio a Risg yn gysylltiedig â'r prosiect corfforaethol ar gyfer adolygu a gwella'r defnydd o'r system Cyflogres/AD ac mae'n egluro'r amserlen weithredu ar gyfer y tymor hwy.

Holodd y Pwyllgor a oedd hi'n rhesymol cadw'r adolygiad archwilio Diogelu Corfforaethol yn agored oherwydd bod elfen ohono yn ffurfio rhan o brosiect ehangach. Roedd y Pwyllgor, tra'n cydnabod y gallai rhoi'r system gywir yn ei lle i ddelio â chofnodion DBS gymryd amser, o'r farn na ddylai fod yn rheswm ar gyfer oedi a chwblhau'r adolygiad Diogelu Corfforaethol ar yr amod y ceir sicrwydd bod y mater o wiriadau DBS yn cael ei gynnwys ac yn cael ei weithredu arno o dan yr adolygiad o'r system Cyflogres Gorfforaethol/AD ehangach. Os mai dyna'r sefyllfa, awgrymodd y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i dynnu'r argymhelliad sydd dros ben yn ymwneud â gwiriadau DBS o dan yr adolygiad Diogelu Corfforaethol oddi ar yr amserlen o argymhellion adolygu honno.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio, o ganlyniad i'r dilyniant, bod Diogelu Corfforaethol bellach wedi'i ail asesu fel darparu Sicrwydd Rhesymol ac o ganlyniad ni fydd yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor. O dan y system newydd, dim ond adolygiadau lle mae argymhellion Trychinebus neu Sylweddol yn parhau heb eu gweithredu fydd yn parhau i gael eu dilyn i fyny. Os yw ail asesiad yn dangos bod gwaith digonol wedi'i wneud er mwyn lleihau'r risg i lefel cymedrol neu fach yna bydd adolygiad yn cael ei roddi o'r neilltu i bob pwrpas.

Holodd y Pwyllgor ymhellach mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol, a allai'r golofn "Ar y Trywydd Cywir" yn y tabl sy'n dangos datblygiad y ddarpariaeth yn erbyn y Cynllun gael ei diwygio i ddangos i ba gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio y mae canlyniad yr adolygiad am gael/yn debygol o gael ei adrodd arno.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd hyd yma gan Archwilio Mewnol o ran y ddarpariaeth gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a'i berfformiad ac effeithlonrwydd o ran gyrru gwelliant.**

**GWEITHRED I DDILYN: Pennaeth Archwilio a Risg i ddiwygio'r golofn "Ar y Trywydd Cywir" yn y tabl sy'n dangos y cynnydd o ran cyflawniad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol i ddangos i ba gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio y mae canlyniad yr adolygiad yn debygol o gael ei adrodd arno.**

**4 ARCHWILIO ALLANOL : DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor ddiweddariad, gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y gwaith presennol a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnwys gwaith archwilio perfformiad ac archwiliadau ariannol yn ogystal â rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol. **Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r wybodaeth fel y'i cyflwynwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU I DDILYN**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn nodi gweithgaredd y Pwyllgor yn ystod blwyddyn 2016/17 y Cyngor ar gyfer ardystiad y Pwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2016/17 fel y'i cyflwynwyd.**

**DIM CAMAU PELLACH I DDILYN**

**6 ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar Adolygu Gweithgareddau 2016/17 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor a sgriwtini yn unol â rheoliadau Deddf Llywodraeth leol 2003 a Chynllun Dirprwyaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2016/17.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 bod rheoli trysorlys yn cynnwys rheoli llif arian y Cyngor a'i falansau a gwneud penderfyniadau am fuddsoddiadau a benthyca mewn ffordd sy'n cefnogi amcanion corfforaethol y Cyngor. Ymgymerir â gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwyir gan y Cyngor Llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ac yna fe'i hadolygir ar ganol y flwyddyn ac ar y diwedd. Mae'r adroddiad yn nodi'n fanwl y gweithgareddau a'r canlyniadau yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 mewn perthynas â'r meysydd canlynol -

- Gweithgaredd Cyfalaf
- Effaith gweithgaredd cyfalaf ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllid Cyfalaf)
- Y gwir ddangosyddion ariannol a thrysorlys sy'n diffinio'r ffiniau ar gyfer gweithgareddau rheoli trysorlys yn ystod y flwyddyn y caiff perfformiad ei asesu yn eu herbyn. Cytunir ar y rhain gan y Cyngor Llawn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys yn nodi'r modd y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi.
- Gweithgaredd dyled, a
- Gweithgaredd buddsoddi

Yn gyffredinol, roedd y flwyddyn yn eithaf sefydlog gyda'r gweithgaredd mwyaf sylweddol yn fenthyciad o £6.2 miliwn gan PWLB ar gyfer prosiect Ysgolion y 21ain Ganrif. Gwelwyd dychweliadau ar fuddsoddiadau yn disgyn i'r lefel isaf erioed o ganlyniad i doriad yn y gyfradd sylfaenol i 0.25%. Roedd gan y Cyngor falansau arian parod priodol bob amser er y golygodd y cyfraddau llog isel bod dychweliadau yn isel. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson

â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 lle yr oedd yr amcanion allweddol yn rhai risg isel a sicrhau bod arian parod digonol ar gael i dalu credydwyr y Cyngor. Y negeseuon allweddol oedd bod y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu diogelwch dros ddychweliadau o ran ei agwedd tuag at fuddsoddi a'i fod yn benthyca at ddibenion cyfalaf yn unig ac nad oedd y cyfyngiad benthyca statudol (y cyfyngiad awdurdodedig) yn cael ei dorri. Parhaodd y Cyngor i weithredu'r strategaeth fenthyca fewnol fel y gwnaed yn ystod pob un o'r chwe blynedd diwethaf. Ni chafodd unrhyw ddyledion eu hail-drefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth cyfartaleddog o 1% rhwng graddfeydd benthyca'r PWLB a'r graddfeydd talu'n ôl yn gynnar yn gwneud hynny'n anymarferol. Cydymffurfiodd y Cyngor â'i holl ofynion deddfwriaethol a rheoliadol yn ystod 2016/17 a gwelwyd yr un amgylchiadau buddsoddi heriol yn ystod y flwyddyn hon â'r blynyddoedd blaenorol, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Holodd y Pwyllgor, o ganlyniad i'r dychweliadau isel ar fuddsoddiadau a'r tebygolrwydd y bydd y tuedd hwn yn parhau yn y dyfodol, a oedd yn ymarferol i awdurdodau Gogledd Cymru ystyried cyfuno eu hadnoddau at ddibenion cyd-fuddsoddi er mwyn ceisio cael gwell dychweliadau. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ac Adran 151 bod gofynion dydd i ddydd y Cyngor yn ei gwneud hi'n anodd iawn dod o hyd i gynllun buddsoddi a fyddai'n bodloni anghenion y chwe Chyngor wrth sicrhau bod unrhyw ddychweliadau'n cael eu rhannu'n briodol. Gall y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru ystyried anghenion benthyca ei gilydd, ac maent yn gwneud hynny, ond mewn amgylchedd lle mae gan awdurdodau lleol arian wrth gefn sylweddol, y pryder uniongyrchol yw sut gall cynghorau fuddsoddi mewn ffordd sy'n gwneud arian ond lle mae risg isel.
- Nododd y Pwyllgor bod y costau ariannu fel cyfran o'r llif refeniw net mewn perthynas â'r HRA wedi cynyddu o 14.6% yn 2014/15 i 18.56% yn 2016/17 (gwelwyd gostyngiad yn 2015/16) a gofynnwyd am gadarnhad o'r cynnydd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ac Adran 151 y gwelwyd cynnydd yn y gwariant cyfalaf o dan yr HRA yn 2016/17 felly mae'r costau ariannu hefyd wedi cynyddu.
- Nododd y Pwyllgor fod y balans ar adneuon ar 31 Mawrth, 2016 tua £13.3 miliwn ond ei fod wedi cynyddu i £15.6 miliwn ar 31 Mawrth, 2017. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad am y cynnydd a gofynnwyd a oedd y ffigwr, yn hanesyddol, wedi amrywio cymaint â hyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod yr arian sydd gan y Cyngor ar adnau yn gallu amrywio'n sylweddol yn ystod y dydd oherwydd, fel sefydliad, mae'n delio â thrafodion arian parod sylweddol pob dydd ac mae'n derbyn arian gan amrywiaeth o wahanol ffynonellau e.e. mae'r Grant Cymorth Refeniw yn dod i'r Cyngor mewn rhandaliadau misol o rhwng tua £7 miliwn ac £8 miliwn; derbynnir y Dreth Gyngor a threthi busnes fel taliadau debyd uniongyrchol ac ar y llaw arall, mae taliadau cyflogau a thaliadau contractwyr yn mynd allan, felly mae symudiadau llif arian mawr i mewn ac allan ond nid yw'r rhain yn adlewyrchiad o iechyd ariannol cyffredinol y Cyngor, dim ond y sefyllfa ar unrhyw un diwrnod arbennig.
- Gofynodd y Pwyllgor am gadarnhad pam fod y gyllideb gwariant cyfalaf, o gymharu â gwir wariant, yn amrywio'n sylweddol, ac a oedd amrywiad o'r fath yn digwydd oherwydd tanamcangyfrif neu oramcangyfrif y gyllideb. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod nifer o gynlluniau mawr o fewn y rhaglen gyfalaf, rhai ohonynt a oedd yn cael eu hariannu'n allanol e.e. gwelliannau i'r A5025 a oedd yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan Horizon. Tra bo'r cyllid ar gyfer y cynlluniau wedi'i gynnwys yn y gyllideb, efallai y bydd y gwaith arnynt yn llithro am wahanol resymau, felly mae cyfanswm y gwariant yn llai. Gosodir y gyllideb gyfalaf yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd ond gall ffactorau eraill, yn enwedig mewn perthynas â gweithiau cyfalaf, achosi cynllun i lithro. Nid yw'r cyllid ar gyfer cynlluniau a gefnogir gan grantiau neu lif arian allanol yn cael ei golli ond yn hytrach, mae'n llithro i'r flwyddyn ganlynol.
- Gofynodd y Pwyllgor ai polisi'r Cyngor oedd peidio â benthyca am gyfnod hirach nag oes ased. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151

bod modd benthyca am gyfnod hirach; rhaid i'r Cyngor godi tâl blynyddol ar y cyfrif refeniw er mwyn ad-dalu'r angen benthyca. Y polisi ar hyn o bryd yw codi 4% ar fenthyciadau hŷn ar falans sy'n lleihau ond yn y dyfodol y dull fydd benthyca dros fywyd yr ased.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro tan y bydd y gwaith o archwilio Datganiad Cyfrifon 2016/17 wedi'i gwblhau a'i arwyddo; bydd unrhyw addasiadau o bwys i'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd yn ôl arnynt fel bo'n briodol.**
- **Nodi'r dangosyddion ariannol a thrysorlys dros dro ar gyfer 2016/17 a nodir o fewn yr adroddiad.**
- **Derbyn yr adroddiad Adolygu Rheolaeth Trysorlys blynyddol ar gyfer 2016/17 a'i basio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.**

**DIM CAMAU PELLACH I DDILYN**

**7 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer ei adolygu ac ar gyfer unrhyw sylwadau.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd y cynnydd yn erbyn Adfer Trychineb Busnes TGCh yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r diweddariad Archwilio mewnol i gyfarfod mis Medi 2017 y Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith fel y'i cyflwynwyd.**

**DIM CAMAU PELLACH I DDILYN**

**Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**